

Stori: Cyfnodau allweddol dau, tri a phedwar

Stori Kona

Mae Kona, sy'n dair ar ddeg, yn byw yng nghefn gwlad Bangladesh. Mae'n mynd i'r ysgol am ddim ond pedwar neu bum diwrnod ar ddiwedd pob mis. Am weddill yr amser mae Kona yn gweithio gartref, yn wneud gwaith fel cynaeafu tshili a gwneud bwyd. Mae'n benthyg nodiadau gwersi gan ei ffrindiau ac yn astudio yn gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos. Mae Kona eisiau bod yn athrawes ac mae'n gobeithio mynd i'r ysgol yn amlach yn 2015.



Kona yn cerdded i'r ysgol Kona yn ysgrifennu yn ei dosbarth

“Fy enw yw Kona Akter. Rwy'n darllen yn nosbarth saith yn Ysgol Uwchradd Sukhnagori Bofat Uddin. Rydym yn deulu o ddwy chwaer a dau frawd, ynghyd â fy mam a'n nhad. Nid ydym yn berchen ar unrhyw dir, felly mae fy mrawd hynaf a minnau yn gwneud gwaith llafur yn y dydd. Rwy'n teimlo'n annifyr yn gweld fy ffrindiau yn mynd i'r ysgol bob dydd. Ond mae'n rhaid i mi fynd i'r cae a helpu i gefnogi fy nheulu drwy weithio yn ystod oriau ysgol.”

Mae gan dad Kona anabledd meddyliol ac mae'n ei chael yn anodd gweithio. Mae'n falch o Kona yn gweithio gartref ac yn mynd i'r ysgol.

Am ddau fis y flwyddyn, mae Kona yn cynaeafu tshili. Mae fel arfer yn casglu 3-4 bag o tshili bob dydd ac yn eu gwerthu yn y farchnad leol. Mae Kona hefyd yn helpu ei mam gartref: “Yn ogystal â fy addysg a fy ngwaith, mae'n rhaid i mi helpu fy mam i goginio, glanhau dillad, a chasglu coed tân”.

Pan mae ei mam yn gweithio yn y cae mae Kona yn paratoi cinio a swper i'r teulu. Mae'n coginio reis, llyisiau, cyri pysgod a chorbys. Fel arfer nid oes angen iddi baratoi brecwast oherwydd yn y bore maen nhw'n bwyta'r reis sydd dros ben o'r noson gynt.



Kona yn coginio gyda'i mam



Kona yn astudio yng ngolau kannwyll

Dywed Kona wrthym: “Gan fy mod yn gweithio, dydw i ddim yn gallu mynd i’r ysgol yn gyson. Pan fyddaf i’n dychwelyd i’r ysgol, bydd fy athrawon a ffrindiau ysgol yn fy helpu i ddeall y gwaith cartref. Os gallaf gwblhau fy addysg, yna hoffwn fod yn athrawes. Byddai’n fy helpu i a fy mrodyr a chworydd i fod yn deulu addysgedig. Dyma yw fy mreuddwyd, a byddai’n beth y byddwn yn falch iawn ei weld yn y dyfodol.”

Mae 58 miliwn o blant heb fod yn derbyn addysg. Gall 2015 newid eu dyfodol. Atgoffwch arweinwyr byd eu bod wedi addo bod POB plentyn yn cael addysg yn 2015. Codwch eich llais am yr hawl i bob plentyn gael addysg.

www.sendmyfriend.org

Lluniau: Emdadul Islam Bitu/ActionAid